

Cofion a Chyfarchion

- Estynnwn ein cofion heddiw at Maldwyn Jones (Cefn Berain) sy'n parhau'n yr Inffirmari ac at eraill o'n plith sydd heb fod cystal eu hiechyd. Cyflwynwn hwy i ofal Duw gan ofyn iddo gysgodi drostynt a thros eu hanwyliaid yr un modd. Hyderwn y byddant oll yn profi daioni'r Arglwydd yn eu cynnal yn eu hangen.
- Llongyfarchiadau i Elinor Davies a Robert Douglas Owen sydd wedi eu dewis i wasanaethu fel blaenoriaid yng Nghapel Soar, Llanfair Talhaiarn. Diolchwn i Dduw amdanynt a bydded Ei fendith ar yr eglwys. Bydd oedfa gyhoeddus i ordeinio a llongyfarch blaenoriaid yng Nghapel y Rhiw, Pwllglas ar Orffennaf 8fed am 7.00.
- Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Megan Jones (Nantglyn) sydd newydd ddatlu pen-blwydd arbennig!

I ddod

- **Cyfarfod Cenhadol Chwiorydd Cefn Berain** – Trip i Eglwys Llandrillo yn Rhos dydd Iau, Gorffennaf 11eg. Cychwyn o Gefn Berain am 1.30.
- **Adnabod Cymdeithasol** - Taith Gerdded Hamddenol nos Fercher, Gorffennaf 17eg. Cychwyn ger y capel yn Henllan am 6.30.
- **Cwrs Ieuenctid (Blwyddyn 7-11)** yng Ngholeg y Bala Gorffennaf 29ain - Awst 2il. Cysylltwch â'r coleg am fwy o fanylion ac i archebu lle (01678 520565). Gweler isod am y gostyngiadau.
- **Anrhefn Awst (8-11 oed)** yng Ngholeg y Bala Awst 12fed – 15fed. Cysylltwch â'r coleg am fwy o fanylion ac i archebu lle (01678 520565). Gweler isod am y gostyngiadau.
- **Souled Out (15+, myfyrwyr ac oedolion ifanc)** yng Ngholeg y Bala, Awst 17eg – 23ain. Cysylltwch â'r coleg am fwy o fanylion ac i archebu lle (01678 520565). Gweler isod am y gostyngiadau.

Bydd gostyngiad o £10 i bob un (hyd at 18 oed) o'r Ofalaeth fydd yn mynychu un o'r cyrsiau uchod yng Ngholeg y Bala. (Os bydd y coffrau'n caniatau, mae'n bosib y gall yr Henaduriaeth hefyd gynnig gostyngiad o £10 yr un.) Cysylltwch â Mair ynglŷn â'r gostyngiadau.

Dalier Sylw

Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos i:

Mair – ✉ mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536,
Rhodri – ✉ rhodri@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870522 📞 07814 660291 neu
Aneurin – ✉ aneurin@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870618 📞 07775 701102
erbyn 9.00 nos Fercher fan bellaf.

Llais Bro Aled

Dydd Sul, 30^{ain} Mehefin 2013

Darlleniad y Dydd

1 Samuel 17:38–47

(BCND tud.265 / BCN: tud.242)

www.eglwysibroaled.com / www.rhaglendorcas.com / www.llanw.org / www.dawncymru.org

Bore da a chroeso i Sul arbennig y Fro. Mae'n braf cael croesawu Steffan yn ôl atom a chael ei gwmni eto heddiw. Rwy'n ei gofio'n cael ei eni ac yn tyfu'n hogyn tebyg i Dafydd yn yr hanes. Bellach mae'n debycach i Goliath a byddaf yn gorfod edrych i fyny arno!

Un o'r pethau y medrwn ei ddweud am Steffan a Gwenno a'u cyfoedion ydi fod ganddynt faich gwirioneddol dros eneidiau eu cyfoedion ac mai prif nod eu bywydau ydi rhannu Iesu hefo pawb. Gweddïwn y byddant yn cael rhyddid yr Ysbryd i wneud hynny gyda ni heddiw ac y gwelwn lawer yn agor eu calonnau i dderbyn Iesu'n Arglwydd.

Mae hon yn frwydr debyg i'r un rhwng Dafydd a Goliath ond fod hon yn frwydr ysbrydol. Gwaith yr Ysbryd ydi dod â phobl i gredu yng Nghrist. Ond, fel Dafydd gynt, mae Steffan a'i cyfoedion yn mynd yn eofn i'r frwydr ysbrydol. (Effesiaid 6:12) Gobeithio y cawn ninnau pob un – o'r lleiaf i'r hynaf – ein hargyhoeddi o'r newydd yn eu cwmni o fawredd Crist a'i groes ac y cawn brofiad newydd, neu gadarnhad bywiol, o ras achubol Duw.

O'r darlleniad sylwch ar eiriau Dafydd wrth wynebu'r cawr Goliath: "Yr wyt ti'n dod ataf fi a gwaywffon ac a chrymgledd: ond yr wyf fi'n dod atat ti yn enw Arglwydd y Lluedd ..." (adnod 45) Y fath hyder a oedd gan Dafydd yn enw Duw! Nid oedd holl rym Goliath yn gallu peri ofn ynddo oherwydd fod Dafydd yn mynd ato i'r frwydr yn enw Duw. Felly y mae Cristnogion i fyw – yn hyderus yn enw Crist yn wyneb pob gelyn brawychus. Dyma'n profiad yn ein gwendid: " Mae dy enw'n abl i beri i'r cryfaf ffoi." (CFF 494)

'Chlywais i ddim sôn am Steve Darcis tan yr wythnos yma. Concro'r enwog Raffa Nadal ar ddiwrnod cyntaf Wimbledon a Darcis mor bell i lawr rhestr y detholion – rhif 125! Gwyddom fod Nadal wedi brifo a bellach mae Darcis ei hun wedi brifo'i ysgwydd ac wedi gorfod peidio a chwarae. Daw emyn Williams Pantycelyn i'r meddwl: "Cans clwyfwyd dau, concwerodd un..." (CFF 522) "A Iesu oedd efe!"

Mae enw Crist mor nerthol oherwydd fo ddaru ennill y frwydr ar Galfaria. Er i Iesu orfod cael ei glwyfo wnaeth o ddim tynnu allan o'r frwydr ac yn ei fuddugoliaeth Ef mae ein hyder ni ym mhob brwydr. Addolwn Ef mewn llawenydd heddiw a deuwn o'i flaen Ef â chân, cân ei fuddugoliaeth a'i waredigaeth! (Salm 20: 5)

Aneurin

Cyhoeddiadau

Y Fro

Sul yma

i-Grist am 10:30

Oedfa'r bore i deuluoedd holl eglwysi'r Ofalaeth,
yng Nghapel Coffa Henry Rees, Llansannan

yng nghwmni **Steffan Morris**

(Gweithiwr Plant, Ieuencid a Theuluoedd Henaduriaeth Conwy a Dyfrdwy)

Yn ystod y gwasanaeth, bydd y plant cynradd a'r oedolion yn cyflwyno'r gwaith llafar, ac yn dilyn yr oedfa, byddwn yn mynd i'r Brenig i gael picnic ac i gymdeithasu. (Os na fydd y tywydd yn ffafriol, mae trefniadau wedi eu gwneud i fynd i'r Ganolfan yn Llansannan.)

Parcio: Er diogelwch, gofynnwn i chi beidio parcio o flaen y capel, os gwelwch yn dda, ond bydd digonedd o le parcio naill ai ym maes parcio'r capel, ym maes parcio'r Ganolfan neu ar ochr y ffordd yn arwain at y Ganolfan.

Cadair Olwyn: Os dymunwch ddefnyddio'r gadair olwyn sydd yn y capel, gofynnwch i un o'r rhai fydd yn y cyntedd yn eich croesawu.

Oedfa o Fawl am 6:00

Oedfa'r hwyr i holl eglwysi'r Ofalaeth yng Nghapel Coffa Henry Rees, Llansannan gyda rhai o ieuencid y Fro yn cymryd rhan. Byddwn hefyd yn clywed gair o brofiad, a bydd digon o ganu emynau hen a newydd. *Sylwch ar yr wybodaeth uchod o ran y gadair olwyn a'r parcio, os gwelwch yn dda.*

- Llun
- **CAP (Grŵp genod bl. 7-11)** yn y Granar yn Llansannan am 4.30.
 - **Cwrs Rhianta** yn y Granar, Llansannan am 7.45.
- Mawrth
- **Cyfarfod Gweddi'r Fro** yn Groes am 7.30.
 - **Cyflwyniad syml i Gristnogaeth** yn Festri Capel Saron am 7.30 i'r rhai 15+ sy'n ystyried dod yn aelodau cyflawn o'r eglwys.
- Mercher
- **Adnabod Addoli** yn Festri Llansannan am 8.00.
- Sadwrn
- **Henaduriaeth Dyffryn Clwyd** yn cyfarfod yng Nghapel y Rhiw, Pwllglas. Bydd y Pwyllgor Gwaith yn cyfarfod am 3.00, Gwaith yr Henaduriaeth ac ymddiddan â'r blaenoriaid newydd am 4.30 a **Chyfarfod Cyhoeddus i Ordeinio a Llongyfarch Blaenoriaid** am 7.00.
 - **Darlithoedd DAWN Cymru** yng Nghapel Seion, Aberystwyth SY23 2BJ.
- Sul nesaf
- Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Dafydd Timothy a bydd Rhodri yn pregethu.

Cyhoeddiadau

Llanfair a Chefn Meiriadog

Sul nesaf Bydd y Parch Meurig Dodd yn arwain oedfa yn Llanfair am 10.00 ac yng Nghewn Meiriadog am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghewn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.

Llansannan

Iau Cinio'r Jangl am 12.00.

Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Yn ystod yr oedfa bydd Bethan, merch fach Darryl a Helen yn cael ei bedyddio. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.

Tanyfron a Nantglyn

Sadwrn Cofiwch am Fore Coffi Chwirydd Tan y Fron yng Nghanolfan y Gymuned Clwt am 10.00. Elw at wahanol achosion da yr ardal.

Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Nhanyfron am 2.00. Yn ystod yr oedfa, fe fydd yr eglwys yn Nhanyfron yn gofyn barn yr aelodau ynglŷn ag a ddylid ethol mwy o flaenoriaid.

Saron a Pheniel

Sul nesaf Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith ym Mheniel am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Saron a Pheniel am 10.00.

Henllan a Groes

Sul nesaf Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Henllan am 10.00. Yn dilyn yr oedfa bydd yr aelodau yn mynd ar bererindod ac yn cael cinio yn y Stamford Gate cyn mynd ymlaen i Ffynnon Gwenffrewi, Treffynnon. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes am 2.00 gyda phlant y ddwy eglwys yn cyfarfod yno.

Llanefydd a Chefn Berain

Gwener Cynhelir Clwb Cinio yr ardal yng Nghewn Berain am 12.00.

Sul nesaf Bydd y Parch John Lewis Jones yn arwain oedfa yng Nghewn Berain am 10.00 ac yn Llanefydd am 2.00. Bydd Ysgol Sul yn Llanefydd am 10.00 ac Ysgol Sul y plant yn cydreddeg â gwasanaeth y bore yng Nghewn Berain a'r oedolion am 2.00.

Eglwys Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, trwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu lesu, a chyrraedd ein cymunedau.